Estyn

estyn.llyw.cymru
estyn.gov.wales

# Darpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc mewn ysgolion uwchradd, colegau addysg bellach ac unedau cyfeirio disgyblion ledled Cymru

Mai 2019



**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael eu hariannu gan, awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion pob oed
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau annibynnol arbenigol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2019: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cynnwys | Tudalen


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **1** |
| **Prif ganfyddiadau** | **5** |
| **Argymhellion** | **6** |
| Trefniadau ar gyfer nodi gofalwyr ifanc | 7 |
| Arweinyddiaeth mewn ysgolion, colegau ac UCDau | 8 |
| Arweinyddiaeth ar lefel awdurdod lleol a lefel ranbarthol | 9 |
| Pecynnau cymorth a chynlluniau gwobrwyo | 11 |
| Darpariaeth ehangach i ddiwallu anghenion gofalwyr ifanc | 14 |
| Olrhain a monitro deilliannau ar gyfer gofalwyr ifanc | 16 |
| Gwaith partneriaeth effeithiol | 16 |
| Hyfforddiant staff | 18 |
| **Sail y dystiolaeth** | **19** |
| **Atodiad 1:  Rhestr wirio** | **21** |
| **Geirfa** | **22** |
| **Cyfeiriadau** | **23** |

## Cyflwyniad

Cyhoeddir yr adroddiad hwn i ymateb i gais am gyngor gan Lywodraeth Cymru yn llythyr cylch gwaith blynyddol y Gweinidog at Estyn ar gyfer 2018-2019. Mae'r adroddiad wedi'i fwriadu ar gyfer Llywodraeth Cymru, timau arwain a'r holl staff mewn ysgolion uwchradd, unedau cyfeirio disgyblion (UCDau), colegau addysg bellach (colegau), awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol.

Mae'r adroddiad yn gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth a drefnir ar gyfer gofalwyr ifanc mewn ysgolion uwchradd, UCDau a cholegau yng Nghymru. Mae'n nodi strategaethau i gynorthwyo darparwyr i wella darpariaeth a deilliannau ar gyfer gofalwyr ifanc. Mae'r adroddiad yn cynnwys astudiaethau achos arfer effeithiol sy'n dangos sut mae darparwyr yn cynorthwyo gofalwyr ifanc yn llwyddiannus.

Mae canfyddiadau'r adroddiad yn defnyddio'r dystiolaeth a restrir ar dudalen 18.

## Cefndir

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2014) yn diffinio gofalwr fel, 'person sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gofal i oedolyn neu blentyn anabl'. Diffinnir gofalwr ifanc fel rhywun o dan 18 mlwydd oed. Gallai'r gofal a ddarperir gynnwys gofal corfforol, emosiynol a phersonol, tasgau'r cartref, gofalu am frodyr neu chwiorydd, neu eirioli ar ran yr unigolyn sy'n derbyn gofal. Gall y rôl ofalgar hon gael effaith niweidiol ar ofalwyr ifanc. Canfu ymchwil gan Brifysgol Nottingham (Sempik a Becker 2013, 2014) fod gofalwyr ifanc:

- yn colli, neu'n cwtogi, 48 diwrnod o addysg y flwyddyn ar gyfartaledd, oherwydd eu rôl ofalu
- pedair gwaith yn fwy tebygol o roi'r gorau i'w cwrs coleg na'u cyfoedion
- â chyfraddau uwch o iechyd meddwl a chorfforol gwael na'r person ifanc cyffredin
- yn wynebu cyfraddau uwch o fwlio.

Yn 2000, lansiodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Gweithredu Strategaeth ar gyfer Gofalwyr yng Nghymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2000). Nod y strategaeth oedd gwella iechyd a lles gofalwyr a'r rheiny y maent yn gofalu amdanynt. Yn y strategaeth, ymrwymodd Llywodraeth Cynulliad Cymru i fynd i'r afael ag anghenion cymhleth a phenodol gofalwyr ifanc. Adnewyddwyd y strategaeth yn 2007 ac eto yn 2013 (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007, 2013).

Rhwng 2001 a 2006, cryfhaodd Llywodraeth Cynulliad Cymru lais gofalwyr ifanc trwy sefydlu'r Panel Ymgynghorol ar gyfer Gofalwyr Ifanc. Rhoddodd y panel gyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar safbwyntiau gofalwyr ifanc a'r materion sy'n effeithio arnynt. Yn 2004, lluniodd y panel 'Gofalu am ofalwyr ifanc – adnodd hyfforddiant ar

gyfer ysgolion' (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2004). Rhwng 2006 a 2018, y Rhwydwaith Gofalwyr Ifanc oedd y prif bwynt ymgynghori ar gyfer Llywodraeth Cymru ar safbwyntiau ac anghenion gofalwyr ifanc. Fodd bynnag, yn 2018, fe wnaeth yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr, trwy weithio gyda phartneriaid, sefydlu Cyngor Gofalwyr Ifanc Cymru i roi llais i ofalwyr ifanc o bob cwr o Gymru. Etholwyd dau aelod o'r cyngor hwn ar Senedd Ieuenctid Cymru, sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru i godi pryderon pobl ifanc yng Nghymru. Mae hyn yn sicrhau bod safbwyntiau gofalwyr ifanc yn cael eu cynrychioli ar lefel wleidyddol genedlaethol.

Yn 2009, cyhoeddodd swyddfa Comisiynydd Plant Cymru safbwyntiau gofalwyr ifanc mewn adroddiad, 'Bywyd Llawn Gofal, Gofalwyr Ifanc yng Nghymru 2009' (Comisiynydd Plant Cymru, 2009). Nododd yr adroddiad hwn fod gofalwyr ifanc o'r farn nad oedd y gymuned ehangach, gan gynnwys athrawon, bob amser yn cydnabod a sylweddoli eu rôl ofalu. Dywedodd gofalwyr ifanc eu bod yn profi gofid, gorbryder a straen. Er bod mwyafrif y gofalwyr ifanc yn gwerthfawrogi'r cymorth roeddent yn ei gael, teimlai gofalwyr ifanc eraill fod y cymorth hwn ar gael yn ystod cyfnodau o argyfwng yn unig. Dyfynnodd yr adroddiad werthusiad o adnodd hyfforddiant Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer ysgolion 2004 a gynhaliwyd gan Plant yng Nghymru. Canfu'r gwerthusiad nad oedd llawer o ysgolion yn dra chyfarwydd â'r adnodd, a hefyd, nad oedd llawer o ysgolion yn gwybod faint o ofalwyr ifanc oedd ar eu cofrestr, os o gwbl.

Cydnabu Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2010) fod gan ysgolion, colegau ac UCDau rôl bwysig mewn cynorthwyo gofalwyr ifanc, ac mai dyma yn aml ble caiff plant a phobl ifanc â chyfrifoldebau gofalu eu nodi'n gyntaf. Amlygodd y mesur, a ddaeth i rym yn 2012, fod angen codi ymwybyddiaeth am ofalwyr ymhlith gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg, er mwyn iddynt allu nodi gofalwyr mor gynnar ag y bo modd a gwybod sut i ymateb i'w hanghenion. Fodd bynnag, nid oedd addysg wedi'i chynnwys yn benodol yn y rhestr o 'awdurdodau dynodedig', a fyddai'n gyfrifol am weithredu.

Nod y Strategaeth adnewyddedig ar gyfer Gofalwyr 2013 (Llywodraeth Cymru, 2013, tud.2) oedd:

> Darparu fframwaith y gall asiantaethau ledled Cymru weithio yn unol ag ef i gyflwyno gwasanaethau a chymorth i ofalwyr, hyrwyddo a rhannu arfer da, a dod o hyd i ffyrdd arloesol a chynaliadwy o gynorthwyo gofalwyr yn fwy effeithiol.

Amlinellodd y Strategaeth y deilliannau bwriadedig canlynol ar gyfer gofalwyr o bob oedran:

- caiff gofalwyr eu nodi'n briodol, ac maent yn cael y wybodaeth gywir ar yr adeg gywir ac mewn fformatau priodol
- gwrandewir ar ofalwyr, dangosir parch atynt, ac fe gânt eu cydnabod yn briodol
- ni chaiff gofalwyr eu rhoi dan anfantais, ac ni wahaniaethir yn eu herbyn o ganlyniad i ymgymryd â rôl ofalgar

- caiff gofalwyr eu cynnwys go iawn yn yr holl benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw a'r bobl maen nhw'n gofalu amdanynt, gan gynnwys penderfyniadau am lefel y gofal y maent yn fodlon, ac yn gallu, ei ddarparu
- ymgynghorir â gofalwyr ac fe gânt eu cynnwys yn y cynllunio strategol, cyflwyno a gwerthuso gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau perthnasol eraill
- caiff anghenion gofalwyr eu hasesu a'u bodloni'n briodol
- caiff gofalwyr gymorth, cefnogaeth a hyfforddiant ymarferol ac emosiynol amserol a phriodol
- caiff gofalwyr eu cynorthwyo mewn cynnal eu hiechyd a'u lles eu hunain
- gall gofalwyr gynnal bywyd mor normal ag y bo modd, cânt eu galluogi i gael bywyd y tu allan i'r rôl ofalu, ac fe gânt eu cynorthwyo pan ddaw'r rôl ofalu i ben
- gall gofalwyr elwa ar gyfleoedd cyflogaeth, addysg a hyfforddiant a hamdden (Llywodraeth Cymru, 2013, tt.5-6).

Nododd y Strategaeth ddeilliant bwriadedig pellach yn benodol ar gyfer gofalwyr ifanc, sef:

> caiff gofalwyr ifanc eu galluogi i fwynhau eu hawliau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a bydd pob asiantaeth sy'n eu cynorthwyo yn rhoi ystyriaeth briodol i'r hawliau hyn o'r Confensiwn (Llywodraeth Cymru, 2013, tud.6)

Mae'r strategaeth yn datgan:

> Mae angen i athrawon fod yn ymwybodol o rôl gofalwyr ifanc, a gwneud gwahaniaeth cadarnhaol pan fydd hyn yn effeithio ar brydlondeb, presenoldeb neu waith cartref. Dylai fod hyfforddiant a chyllid i gefnogi hyn, a chodi ymwybyddiaeth yn gyffredinol ymhlith staff ysgol a disgyblion. Mae angen gwneud mwy i helpu a chynorthwyo gofalwyr ifanc a gofalwyr sy'n oedolion ifanc mewn colegau a phrifysgolion, yn ogystal ag ysgolion (Llywodraeth Cymru, 2013, tud.26).

Ym mis Ebrill 2016, daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2014) yn gyfraith. Disodlwyd deddfwriaeth arall gan y Ddeddf, a rhoddodd hawliau estynedig i ofalwyr. O dan y Ddeddf, rhaid i awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol weithio mewn partneriaeth i asesu anghenion gofalwyr ifanc a chytuno ar gynllun cymorth iddynt, sy'n sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu. Mae hyn yn cynnwys anghenion iechyd, gofal ac anghenion addysgol.

Wrth asesu gofalwr rhwng 16 a 25 oed, rhaid cynnwys asesiad o unrhyw drosglwyddiadau presennol neu yn y dyfodol y mae'r gofalwr yn debygol o'u gwneud i addysg bellach neu addysg uwch, cyflogaeth neu hyfforddiant. Rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod gallu'r gofalwr i ddarparu gofal yn gynaliadwy a'u bod yn cydymffurfio â'u dyletswydd gyffredinol i hyrwyddo lles y gofalwr a'r unigolyn sy'n derbyn gofal.

I gynorthwyo darparwyr wrth nodi a mynd i'r afael ag anghenion gofalwyr ifanc, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (2017) becyn cymorth hyfforddiant ar-lein ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol ar ffurf pecyn cymorth.

Ym mis Tachwedd 2018, cyhoeddodd y Gweinidog sydd â chyfrifoldeb am ofalwyr dri maes blaenoriaeth ar gyfer gweithredu er mwyn gwella bywydau gofalwyr (Llywodraeth Cymru, 2018). Mae'r rhain yn disodli strategaethau blaenorol, ac yn adeiladu arnynt. Maent fel a ganlyn:

- **Cefnogi bywyd ochr yn ochr â gofalu** – Rhaid i bob gofalwr gael seibiant rhesymol o'i rôl ofalu i'w alluogi i gynnal ei allu i ofalu, a chael bywyd y tu hwnt i ofalu.
- **Nodi a chydnabod gofalwyr** – Yr angen i wella cydnabyddiaeth gofalwyr o'u rôl a sicrhau eu bod yn gallu manteisio ar y cymorth angenrheidiol.
- **Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth** – Mae'n bwysig fod gofalwyr yn cael y wybodaeth a'r cyngor priodol ble bynnag a phryd bynnag y mae arnynt eu hangen.

## Prif ganfyddiadau

1 Mae diffyg data dibynadwy i nodi faint o ofalwyr ifanc sydd mewn ysgolion, UCDau a cholegau ledled Cymru. Nid yw llawer o ddarparwyr yn gwybod pa rai o'u disgyblion a'u dysgwyr sydd â rôl ofalu. O ganlyniad, mae'r ddarpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc mewn ysgolion uwchradd, colegau ac UCDau yn amrywio'n fawr.

2 Mae ysgolion uwchradd, colegau ac UCDau sydd fwyaf effeithiol o ran diwallu anghenion gofalwyr ifanc wedi rhoi systemau cadarn ar waith i nodi'r dysgwyr hyn. Maent yn olrhain eu hanghenion lles yn rheolaidd ac yn addasu eu darpariaeth yn ofalus i ddiwallu anghenion unigol pob gofalwr ifanc. Fodd bynnag, lleiafrif yn unig o'r ysgolion, y colegau a'r UCDau y gwnaed arolwg ohonynt sy'n defnyddio system rheoli gwybodaeth i olrhain ac adrodd ar y cynnydd a wna gofalwyr ifanc o gymharu â'u cyfoedion.

3 Mae ysgolion uwchradd, colegau ac UCDau sydd ag aelod o staff arweiniol enwebedig ar gyfer gofalwyr ifanc yn darparu lefel uchel o ofal, cymorth ac arweiniad ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr ar y cyfan. Yn y darparwyr hyn, mae gofalwyr ifanc yn hyderus i godi pryderon, ac yn sicr y bydd yr aelod arweiniol o staff yn hyrwyddo eu hawliau ac yn cysylltu'n sensitif â rhieni a gweithwyr proffesiynol eraill.

4 Ar ôl rhoi Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010 ar waith, mae'r Byrddau Iechyd Lleol (BILlau) a'r awdurdodau lleol yn eu hardaloedd, wedi datblygu partneriaethau strategol gwerthfawr i rannu gwybodaeth, hyrwyddo cydweithredu rhwng asiantaethau a chwblhau asesiadau priodol o anghenion gofalwyr ifanc. Mae gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014 (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2014) yn cryfhau gwaith partneriaeth ymhellach trwy sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r byrddau rhanbarthol hyn yn cynnwys cynrychiolaeth o blith gofalwyr ifanc ac yn sicrhau bod gwasanaethau ac adnoddau'n cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol i wella deilliannau ar gyfer pobl yn eu hardal, gan gynnwys gofalwyr ifanc. Mae'r gwaith partneriaeth hwn yn dechrau cynnwys darparwyr addysg.

5 Mae gofalwyr ifanc yn elwa'n sylweddol lle mae gan awdurdodau lleol gynllun strategol clir ar gyfer gofalwyr ac unigolyn enwebedig i yrru'r strategaeth yn ei blaen mewn lleoliadau addysgol. Yn yr awdurdodau lleol hyn, mae darparwyr yn rhannu gwybodaeth yn effeithiol pan fydd disgyblion yn pontio rhwng ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd a cholegau. Mae ganddynt ddull cyson o nodi gofalwyr ifanc a'u cyfeirio at gymorth priodol.

6 Ceir ystod fach o gynlluniau gwobrwyo sy'n darparu adnoddau a phecynnau cymorth defnyddiol ar gyfer ysgolion uwchradd, colegau ac UCDau i ffurfio eu darpariaeth i ddiwallu anghenion gofalwyr ifanc. Fodd bynnag, mae gormod o ddarparwyr nad ydynt wedi manteisio arnynt.

7 Mae asiantaethau arbenigol yn darparu adnoddau a chymorth o ansawdd da i godi ymwybyddiaeth a diwallu anghenion gofalwyr ifanc. Ond nid yw llawer o ysgolion, colegau ac UCDau yn ymgysylltu'n ddigon da â'r asiantaethau hyn ac nid ydynt wedi manteisio ar y cymorth gwerthfawr hwn.

8 Mae hyfforddiant noddedig Llywodraeth Cymru ar brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar waith ysgolion. Yn gyffredinol, mae ysgolion sy'n darparu'n dda ar gyfer gofalwyr ifanc yn deall sut gallai'r rôl ofalu gael effaith niweidiol ar brofiadau plentyn, a'i gyfleoedd mewn bywyd.

9 Mae defnyddio proffiliau un dudalen i gofnodi beth sy'n bwysig i'r plant, ac ar eu cyfer, yn helpu rhoi llais i ofalwyr ifanc, ac mae'n galluogi ysgolion, colegau ac UCDau i dargedu cymorth i ddiwallu eu hanghenion unigol.

10 Mae ystod o gyrsiau hyfforddi defnyddiol ar gael i godi ymwybyddiaeth staff am anghenion gofalwyr ifanc. Fodd bynnag, mae gormod o staff mewn ysgolion, colegau ac UCDau nad ydynt wedi cael yr hyfforddiant hwn.

11 Ychydig iawn o ysgolion yn unig yr ymwelwyd â nhw sydd â dealltwriaeth glir o hawliau estynedig gofalwyr o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion yn ymwybodol o'r gofyniad i asesu anghenion gofalwyr ifanc, a rôl addysg o ran cyfrannu at yr asesiad hwn.

## Argymhellion

**Dylai ysgolion uwchradd, colegau ac UCDau:**

A1 Sicrhau bod ganddynt weithdrefnau cadarn i nodi pa rai o'u disgyblion/dysgwyr sydd â rôl ofalu

A2 Cael aelod o staff enwebedig sydd â chyfrifoldeb arweiniol am ofalwyr ifanc, sy'n gweithredu fel unigolyn cyswllt ar gyfer gofalwyr ifanc, ac yn hyrwyddo eu hanghenion

A3 Codi ymwybyddiaeth staff am anghenion gofalwyr ifanc

A4 Ymgysylltu â gwasanaethau arbenigol i adolygu a gwella eu darpariaeth i ddiwallu anghenion gofalwyr ifanc

A5 Olrhain a monitro cynnydd a deilliannau ar gyfer gofalwyr ifanc, yn unol â'r drefn ar gyfer grwpiau eraill o ddysgwyr sy'n agored i niwed

A6 Gwerthuso eu darpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc gan gyfeirio at y rhestr wirio yn Atodiad 1 neu becynnau cymorth sydd ar gael.

**Dylai awdurdodau lleol:**

A7 Ganolbwyntio strategaethau gofalwyr ar gynyddu capasiti ysgolion, colegau ac UCDau i nodi a diwallu anghenion gofalwyr ifanc

**Dylai Llywodraeth Cymru:**

A8 Lunio data dibynadwy a gesglir yn genedlaethol i helpu nodi gofalwyr ifanc

## Trefniadau ar gyfer nodi gofalwyr ifanc

12 Daw'r ffynhonnell ddiweddaraf o wybodaeth ystadegol am ofalwyr o Gyfrifiad 2011, a gofnododd 29,155 o ofalwyr o dan 25 oed yng Nghymru (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2011). Mae gwaith ymchwil yn dangos y gallai llawer o ofalwyr ifanc guddio eu rolau gofalu o olwg swyddogol am lu o resymau, gan gynnwys teyrngarwch teuluol, ofni stigmateiddio neu fwlio, a pheidio â gwybod ble i droi am gymorth (Cymdeithas y Plant, 2013). Efallai na fydd gofalwyr ifanc eraill yn cydnabod eu bod yn ofalwr ifanc. O ganlyniad, mae diffyg data lleol a chenedlaethol dibynadwy i nodi faint o ofalwyr ifanc sydd mewn ysgolion, UCDau a cholegau ledled Cymru.

13 Adroddodd bron pob un o'r ysgolion uwchradd, colegau a darparwyr y gwnaed arolwg ohonynt eu bod yn gwybod pa rai o'u disgyblion sy'n ofalwyr ifanc. Mae hyn yn cyferbynnu â gwybodaeth a ddarparwyd gan y grwpiau cymorth gofalwyr ifanc a ymatebodd i'r arolwg. Mae'r grwpiau hyn yn adrodd bod gweithdrefnau i nodi gofalwyr ifanc yn amrywio'n eang mewn ysgolion, colegau ac UCDau ledled Cymru. Canfu'r wyth ysgol yng Nghymru wnaeth beilota'r rhaglen Gofalwyr Ifanc mewn Ysgolion[1], a gynhelir ar y cyd gan yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr a Chymdeithas y Plant, fod y cynllun wedi eu helpu i nodi gofalwyr ifanc yn eu hysgol nad oeddent yn ymwybodol ohonynt o'r blaen.

14 Dywedodd lleiafrif o ofalwyr ifanc a gyfrannodd at yr arolwg nad oeddent wedi rhoi gwybod i'w hysgol am eu rôl ofalu. Dywedodd ychydig o ofalwyr ifanc eraill eu bod wedi dweud wrth uwch staff am eu rôl ofalu ond nad oedd y tîm staff ehangach yn ymwybodol o'r ddarpariaeth a gytunwyd gyda'r uwch staff. O ganlyniad, nid oedd darpariaeth a gytunwyd gydag uwch staff (fel cymorth ar gyfer prydlondeb, presenoldeb a chwblhau gwaith cartref) wedi cael ei rhoi ar waith yn llawn.

15 Mae lleiafrif o ysgolion a cholegau yn casglu gwybodaeth am rolau gofalu i nodi gofalwyr ifanc fel rhan o'u gweithdrefnau derbyn. Er enghraifft, yng Ngholeg y Cymoedd, mae'r offeryn sgrinio adeg derbyn ar gyfer pob dysgwr yn gofyn cwestiwn ynghylch p'un a oes gan y person ifanc rôl ofalu. Yn yr un modd, mae Ysgol Uwchradd Ioan Fedyddiwr yn Aberdâr yn cynnwys cwestiwn penodol ynghylch unrhyw rôl ofalu hysbys sydd gan ddisgyblion yn y wybodaeth y mae'n ei chasglu gan ei hysgolion bwydo. Mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i greu cynlluniau pontio buddiol ar gyfer y disgyblion sy'n ystyried eu rôl ofalu yn dda.

16 Roedd gan ryw hanner o'r ysgolion, colegau ac UCDau y gwnaed arolwg ohonynt drefniadau addas ar waith i godi ymwybyddiaeth disgyblion ynglŷn â rôl ac anghenion gofalwyr ifanc trwy addysg bersonol a chymdeithasol, gwasanaethau ac arddangosfeydd. Adroddodd lleiafrif o ysgolion, colegau ac UCDau fod y gweithgareddau hyn i godi ymwybyddiaeth wedi helpu gofalwyr ifanc i nodi eu hunain a throi atynt am gymorth a chefnogaeth.

[1] Mae'r rhaglen hon yn darparu fframwaith a phecyn cymorth defnyddiol i ysgolion adolygu a gwella eu darpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc.

## Arweinyddiaeth mewn ysgolion, colegau ac UCDau

17 Mae ysgolion sy'n cynorthwyo gofalwyr ifanc yn dda yn darparu amgylchedd meithringar ar draws yr ysgol gyfan. Mae uwch arweinwyr yn yr ysgolion hyn yn cyfleu ethos cynhwysol sy'n canolbwyntio'n gryf ar ddiwallu anghenion academaidd a lles yr holl ddisgyblion.

18 Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion uwchradd, colegau ac UCDau y gwnaed arolwg ohonynt, ceir aelod o staff sy'n arwain ar sicrhau eu bod yn nodi a diwallu anghenion gofalwyr ifanc. Mae lleiafrif o'r staff arweiniol hyn yn aelodau o'r uwch dîm arweinyddiaeth neu'n arweinwyr canol. Mae ychydig ohonynt yn aelodau o'r timau lles o fewn eu hysgolion, colegau neu UCDau. Nododd yr arolwg o brosiectau gofalwyr ifanc fod yr angen i ysgolion gael aelod o staff arweiniol ar gyfer gofalwyr ifanc yn hanfodol i wella darpariaeth.

19 Mewn llawer o ddarparwyr yr ymwelwyd â nhw, mae'r aelod arweiniol o staff yn darparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer codi ymwybyddiaeth staff a llywodraethwyr a datblygu polisi. Er enghraifft, yn Ysgol Uwchradd Bryn Elian yng Nghonwy, gwnaeth arweinydd y gofalwyr ifanc ddefnydd effeithiol o becyn cymorth y rhaglen Gofalwyr Ifanc mewn Ysgolion (yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr, 2017) i godi ymwybyddiaeth yr holl brif randdeiliaid. Cyflwynodd yr aelod arweiniol o staff hyfforddiant ysgol gyfan i godi ymwybyddiaeth staff, fe wnaeth arddangos gwybodaeth o gwmpas yr ysgol, a rhoddodd hyfforddiant a chymorth i'r corff llywodraethol. Ar ôl sicrhau cymorth y staff a'r corff llywodraethol, cynhaliodd yr arweinydd wasanaethau ar gyfer pob grŵp blwyddyn i godi ymwybyddiaeth disgyblion. Wedyn, darparodd yr ysgol wybodaeth am ofalwyr ifanc i'r holl rieni. Mae'r ddealltwriaeth a'r ymwybyddiaeth gynyddol hon yn golygu bod staff, disgyblion a rhieni yn gweithio gyda'i gilydd yn gynhyrchiol i ymateb yn sensitif i anghenion ac amgylchiadau newidiol gofalwyr ifanc.

20 Nododd ychydig o'r gofalwyr ifanc a gyfrannodd at yr adolygiad hwn fod y ddarpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc yn eu hysgol wedi lleihau gan fod yr aelod arweiniol o staff wedi newid ei rôl neu symud i ysgol arall. Pan fydd yr aelod arweiniol o staff yn cysylltu'n agos â staff eraill sy'n gyfrifol am les dysgwyr, fel penaethiaid bugeiliol a swyddogion lles addysg, mae darparwyr yn meithrin timau cryf ac effeithiol i gefnogi anghenion amrywiol gofalwyr ifanc. Er enghraifft, yn Ysgol Uwchradd Y Rhyl, mae'r tîm bugeiliol yn cyfarfod bob wythnos ac mae wedi rhoi anghenion gofalwyr ifanc yn eitem sefydlog ar yr agenda. Mae hyn yn galluogi'r tîm bugeiliol ehangach i rannu negeseuon allweddol a chynnal trosolwg rheolaidd o'r lles a'r cynnydd a wna pob gofalwr ifanc. Mae hefyd yn rhannu arbenigedd a gwybodaeth gofalwyr ifanc a'u hanghenion ar draws y tîm. Mae hyn yn golygu y gellir newid cyfrifoldebau arwain heb gael effaith niweidiol ar y cymorth a roddir i ofalwyr ifanc.

21 Mewn llawer o ysgolion uwchradd, colegau ac UCDau, mae'r aelod arweiniol o staff ar gyfer gofalwyr ifanc yn gweithredu fel y prif unigolyn cyswllt ar gyfer rhieni a phartneriaid amlasiantaethol. Yn gyffredinol, maent yn cysylltu'n sensitif ag ystod eang o asiantaethau cymorth arbenigol i ddarparu dull cydlynus o ddiwallu anghenion

personol a chymdeithasol gofalwyr ifanc. Er enghraifft, yn Ysgol John Frost yng Nghasnewydd, yr aelod arweiniol o staff ar gyfer gofalwyr ifanc yw'r swyddog ymgysylltu â theuluoedd hefyd. Mae rhan o'i rôl yn cynnwys ymweld â gofalwyr ifanc gartref i gael dealltwriaeth fanylach o anghenion y teulu, a rôl ac anghenion unigol y gofalwr ifanc. Maent yn cysylltu â staff yr ysgol i sicrhau bod cynlluniau yn yr ysgol yn adlewyrchu anghenion gofalwyr ifanc, a gyda'r tîm amlasiantaethol i sicrhau bod asesiad o angen y gofalwyr ifanc yn gywir a chyfoes. Mae gofalwyr ifanc yn gwerthfawrogi cymorth yr ysgol ar gyfer y teulu a'u hanghenion eu hunain.

22 Mae ychydig o'r ysgolion uwchradd, y colegau a'r UCDau yr ymwelwyd â nhw yn cynnwys adran ar ofalwyr ifanc yn eu cynlluniau datblygu. Er enghraifft, yng Ngholeg Gwent, mae'r cymorth ar gyfer gofalwyr ifanc yn rhan o gynllun datblygu'r coleg ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed. Yn Ysgol Rhydywaun, mae cynllun datblygu'r ysgol gyfan yn cefnogi cynllunio ar gyfer gwelliannau parhaus i'r ddarpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc yn dda. Mae'r sylw hwn i gynllunio yn sicrhau bod y darparwyr hyn yn parhau i ganolbwyntio ar anghenion gofalwyr ifanc, a bod arweinwyr yn gosod targedau ac yn dyrannu adnoddau i wella eu darpariaeth.

## Arweinyddiaeth ar lefel awdurdod lleol a lefel ranbarthol

23 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2014) yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd lleol, awdurdodau lleol a sefydliadau'r trydydd sector weithio mewn partneriaeth i wella deilliannau ar gyfer pobl, gan gynnwys gofalwyr ifanc. Mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi llunio ystod o strategaethau a chynlluniau gweithredu gofalwyr ar gyfer pob rhanbarth, sy'n darparu cymorth a chyfarwyddyd priodol ar gyfer y dull partneriaeth hwn. Er enghraifft, mae Strategaeth a Chynllun Cyflawni Gofalwyr Gorllewin Cymru ar gyfer 2018-2019 (Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru, 2018) sy'n cwmpasu Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion yn cynnwys arwydd clir o'r rôl sydd gan ddarparwyr addysg o ran mynd i'r afael â'r blaenoriaethau a'r targedau i wella'r cymorth a roddir i ofalwyr ifanc. Mae hyn yn cynnwys cynyddu nifer yr ysgolion sy'n cwblhau'r Wobr Buddsoddwyr mewn Gofalwyr. Yn ardal Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, mae'r Bwrdd Iechyd Lleol, awdurdodau lleol a'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr yn gweithio mewn partneriaeth i hyrwyddo a chefnogi'r rhaglen Gofalwyr Ifanc mewn Ysgolion. O ganlyniad i hyn, mae tua 33 o ysgolion yn ne ddwyrain Cymru yn cymryd rhan yn y rhaglen.

24 Mae gofalwyr ifanc yn elwa'n sylweddol lle caiff y cynlluniau rhanbarthol hyn eu cefnogi gan wasanaethau awdurdodau lleol, sydd ag ymrwymiad clir i gefnogi ysgolion, colegau ac UCDau i wella'r ddarpariaeth a drefnir ar gyfer gofalwyr ifanc. Mae hyn yn glir, er enghraifft, yn y cyswllt cryf rhwng strategaeth ar gyfer gofalwyr Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a'r cymorth effeithiol a ddarperir ar gyfer ysgolion i wella darpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc yn ardal awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr. Enghraifft arall o effeithiau gwaith partneriaeth cryf yw rhwng awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Mae eu Strategaeth ar y cyd ar gyfer Gofalwyr yn cynnwys pwyslais cryf ar wella deilliannau ar gyfer gofalwyr ifanc ac yn cyfeirio'n addas at rôl ysgolion o ran cyflawni yn unol â

thargedau.  Mae gan Rhondda Cynon Taf ddull cryf a chydlynus o roi'r cynllun hwn ar waith, a chynorthwyo ysgolion a cholegau yn yr agwedd hon ar eu gwaith.

**Astudiaeth achos 1:  Prosiect Cymorth i Ofalwyr Rhondda Cynon Taf**

Mae Prosiect Cymorth i Ofalwyr Rhondda Cynon Taf (RhCT) yn cynorthwyo tua 300 o ofalwyr ifanc ar draws yr awdurdod lleol.  Mae'r prosiect yn cynorthwyo ysgolion yn yr awdurdod lleol i nodi gofalwyr ifanc ac yn trefnu darpariaeth effeithiol i ddiwallu eu hanghenion.

**Cyd-destun a chefndir yr arfer**

Mae Bwrdd Partneriaeth Gofalwyr Cwm Taf wedi nodi bod Gwobr Ysgolion i Ofalwyr Ifanc RhCT yn flaenoriaeth allweddol o ran nodi gofalwyr ifanc mewn ysgolion ar draws yr awdurdod.  Mae Prosiect Cymorth i Ofalwyr RhCT, a ariennir gan yr awdurdod lleol, yn gweithio mewn partneriaeth â holl ysgolion RhCT i roi'r Wobr Ysgolion i Ofalwyr Ifanc ar waith.

**Disgrifiad o'r gweithgaredd / strategaeth**

Mae'r Wobr Ysgolion i Ofalwyr Ifanc yn cynnwys tair lefel (Efydd, Arian ac Aur), gyda phob lefel yn cynnwys set gynhwysfawr o safonau y mae'n ofynnol i'r ysgol eu cyflawni i ennill y wobr.

Ar ôl cwblhau lefel yn llwyddiannus, mae'r ysgol yn derbyn gwobr am gymryd rhan.  Bydd gweithiwr o Brosiect Cymorth i Ofalwyr RhCT yn ailasesu safonau'r ysgol bob blwyddyn i sicrhau bod y wobr yn ddilys o hyd.

Mae'r Grŵp Cymorth i Ofalwyr yn darparu hyfforddiant a chymorth parhaus i aelodau o staff ym mhob ysgol sy'n arwain ar roi'r wobr ar waith.  Maent hefyd yn darparu cynlluniau gwersi ar gyfer gwersi addysg bersonol a chymdeithasol ac yn arwain gwasanaethau yn yr ysgol.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

- Dros y pum mlynedd ddiwethaf, mae nifer y gofalwyr ifanc sy'n cael eu cyfeirio o ysgolion RhCT i'r prosiect wedi cynyddu 30%, sydd felly'n cefnogi nodi a chydnabod gofalwyr ifanc.
- Caiff gofalwyr ifanc eu cynnwys yn weithredol mewn gwerthuso gwobr ysgolion i ofalwyr ifanc.  Maent wedi gwneud cyflwyniadau mewn gwasanaethau ysgol i ddangos sut beth yw bywyd i ofalwr ifanc.
- Mae gofalwyr ifanc wedi rhoi adborth i weithwyr prosiect eu bod yn teimlo y cânt gymorth gwell o lawer yn yr ysgol, a'u bod yn teimlo'n well ynglŷn â mynd i'r ysgol.
- Mae ysgolion wedi trefnu bod cyllid ar gael i gynorthwyo gofalwyr ifanc wrth iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau ysgol.
- Mae adborth yn dangos bod gofalwyr ifanc yn hyderus fod rhywun y gallant droi ato/ati yn yr ysgol, sy'n deall natur eu rôl ofalu.

## Pecynnau cymorth a chynlluniau gwobrwyo

25 Ceir ystod fach o becynnau cymorth a chynlluniau gwobrwyo am ddim a hygyrch, sy'n rhoi cymorth a chyngor gwerthfawr i ysgolion ar sut i ddatblygu dull ysgol gyfan o ddiwallu anghenion gofalwyr ifanc. Mae arweinwyr mewn ysgolion ledled Cymru sydd wedi defnyddio'r cynlluniau a'r gwobrau hyn yn eu gwerthfawrogi'n fawr. Fodd bynnag, nid oes digon o ysgolion yn defnyddio'r adnoddau hyn i adolygu a gwella eu darpariaeth. Roedd y cynlluniau canlynol yn amlwg yng ngwaith y darparwyr mwyaf effeithiol:

- Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru wedi cyflwyno rhaglen Cymru Y Gofalwyr Ifanc mewn Ysgolion (Ymddiriedolaeth Gofalwyr, 2017). Mae'r rhaglen hon yn addasiad o gynllun gwobrwyo a ddatblygwyd gan Gymdeithas y Plant a'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr y mae ysgolion yn Lloegr yn ei defnyddio i wella deilliannau ar gyfer gofalwyr ifanc. Mae'r rhaglen yng Nghymru yn darparu fframwaith a phecyn cymorth defnyddiol ar gyfer ysgolion i adolygu a gwella eu darpariaeth yn unol â set o safonau a ddiffiniwyd yn glir. Mae'r rhaglen ar gael ar dair lefel ac yn hyrwyddo arfer fyfyriol yn dda, gan ddefnyddio adolygu cymheiriaid a llysgenhadon sy'n ofalwyr ifanc i werthuso cynnydd yr ysgol o ran bodloni'r safonau. Mae ysgolion ledled Cymru yn defnyddio'r rhaglen yn effeithiol i wella eu darpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc. Mae rhagor o wybodaeth ar gael o: https://gweddill.gov.wales/topics/health/socialcare/young-carers-toolkit/?skip=1&lang=cy

**Astudiaeth achos 2: Darpariaeth i Ofalwyr Ifanc yn Ysgol Cwm Rhymni**

Mae Ysgol Gyfun Cwm Rhymni yn ysgol uwchradd fawr cyfrwng Cymraeg (1,625 o ddisgyblion) sydd â dau safle yng Nghwm Rhymni. Cwm Rhymni yw'r unig ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn awdurdod lleol Caerffili.

Mae'r ysgol wedi ei lleoli yn un o'r 25% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Cyfartaledd treigl tair blynedd disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim yw tua 14%, sydd ychydig islaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Mae'r ysgol yn canolbwyntio'n sylweddol ar gefnogi lles dysgwyr.

**Cyd-destun a chefndir yr arfer**

Yn 2016, cytunodd yr ysgol beilota Pecyn Cymorth Gofalwyr Ifanc yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr. Roedd yr ysgol eisoes wedi nodi wyth o ofalwyr ifanc, ac yn darparu cymorth iddynt.

**Disgrifiad o'r gweithgaredd / strategaeth**

Ar ddechrau'r cyfnod peilot, defnyddiodd yr ysgol offer adolygu gwaelodlin y pecyn cymorth i asesu cryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu wrth nodi a diwallu anghenion gofalwyr ifanc. Amlygodd hyn fod mwy o ofalwyr ifanc yn yr ysgol na'r wyth yr oedd yr ysgol wedi eu nodi ac yn eu cynorthwyo.

Wedyn, defnyddiodd yr ysgol y pecyn cymorth i wella'i strategaeth a darparu hyfforddiant ar gyfer staff.

O fewn blwyddyn academaidd o gynnal yr adolygiad gwaelodlin, nododd yr ysgol 47 o ofalwyr ifanc ychwanegol. Ymgynghorodd yr ysgol â phob un o'r gofalwyr ifanc i nodi sut roeddent am gael eu cynorthwyo. Nid oedd ychydig iawn ohonynt eisiau cymorth uniongyrchol, ond roeddent am i staff fod yn ymwybodol o'u rôl ofalu.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o gymorth ar gyfer y gofalwyr hynny sydd eisiau cymorth ychwanegol. Mae'r cymorth wedi'i deilwra yn unol ag anghenion unigol pob gofalwr ifanc, ac yn cynnwys mentora, cwnsela, amserlenni wedi'u haddasu, a defnyddio proffil un dudalen i'w rhannu â staff, sy'n cynnwys gwybodaeth berthnasol. Mae'r ysgol hefyd yn darparu lle tawel i ofalwyr ifanc ei ddefnyddio cyn y diwrnod ysgol ac yn ystod amser egwyl. Hefyd, gall gofalwyr ifanc gael cymorth ychwanegol trwy'r ystafell les lle mae staff yn gweithio gydag unigolion ac yn eirioli dros y dysgwyr. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau allanol fel Gwasanaethau Gofalwyr Ifanc a Phlant Barnardo's i sicrhau bod disgyblion ar draws yr ysgol yn ymwybodol o ofalwyr ifanc a'u hanghenion, a chyfeirio gofalwyr ifanc at gymorth ychwanegol.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

- O'r 47 dysgwr a nodwyd, mae llawer wedi gwella eu cofnod presenoldeb yn yr ysgol o gymharu â blynyddoedd blaenorol (lle bo'n berthnasol) a chyn eu nodi fel gofalwr ifanc.
- Mae'r rhan fwyaf o ofalwyr ifanc wedi datgan bod y cymorth y maent wedi'i gael gan yr ysgol ar ôl cael eu nodi wedi eu helpu yn emosiynol.
- Mae llawer o ofalwyr ifanc wedi datgan bod y cymorth y maent wedi'i gael gan yr ysgol ar ôl cael eu nodi wedi eu helpu i berfformio'n well yn y dosbarth ac mae eu graddau monitro cynnydd wedi gwella.
- Ychydig iawn o ofalwyr ifanc a nodwyd oedd eisiau cymorth gan yr ysgol. Fodd bynnag, dywedon nhw fod cael eu cydnabod yn ofalwr ifanc wedi eu helpu o ran eu hyder, ac roedd yn ddigon cael eu nodi yn unig.

- Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru hefyd wedi gweithio gyda'r Sefydliad Dysgu a Gwaith i ddatblygu 'Cefnogi Myfyrwyr sydd â Chyfrifoldebau Gofalu: Adnodd ar gyfer Darparwyr Addysg Bellach i Helpu Gofalwyr sy'n Oedolion Ifanc i Lwyddo mewn Addysg Bellach yng Nghymru' (2017). Mae'r adnodd yn defnyddio arfer effeithiol bresennol i ddarparu arweiniad buddiol mewn perthynas â derbyniadau, cyngor, cymorth a chreu'r amodau cywir yn y coleg i ddarparu cymorth effeithiol.
- Mae Llywodraeth Cymru (2017) wedi trefnu bod Pecyn Cymorth i Ofalwyr Ifanc ar gael ar-lein ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd, addysg a

gwasanaethau cymdeithasol. Mae'r pecyn cymorth yn cynnwys cyngor, taflenni gwaith a fideos defnyddiol y gall ysgolion eu defnyddio i werthuso eu darpariaeth. Mae'r adnodd ar gael o: https://gweddill.gov.wales/topics/health/socialcare/young-carers-toolkit/?skip=1&lang=cy

- Mae Gwobr Ysgolion i Ofalwyr Ifanc Rhondda Cynon Taf (RhCT) wedi cael ei sefydlu ers rhyw 15 mlynedd. Mae'r wobr ar gael ar dair lefel, sef efydd, arian ac aur. Mae gan Brosiect Cymorth i Ofalwyr RhCT swyddog arweiniol sy'n gweithio gydag ysgolion i gwblhau cynllun gweithredu a gwerthuso darpariaeth yn unol â set o safonau ar gyfer pob lefel o'r wobr. Mae Grŵp Cymorth i Ofalwyr RhCT wedi darparu cyfres o gynlluniau gwersi y gall ysgolion eu defnyddio i godi ymwybyddiaeth am ofalwyr ifanc. Maent hefyd yn cyflwyno gwasanaethau, yn cyflwyno hyfforddiant staff ac yn darparu arddangosfeydd gwybodaeth. Mae'r wobr yn canolbwyntio'n gryf ar ddod ag aelodau o staff arweiniol o bob ysgol at ei gilydd i rannu arfer dda. Mae ar gael i bob ysgol, coleg ac UCD yn yr awdurdod lleol, er nad yw pob ysgol yn dewis cymryd rhan. Mae mwy o wybodaeth ar gael gan Wasanaeth i Ofalwyr Ifanc RhCT o: youngcarerssupportteam@rctcdc.gov.uk

- Mae Gwobr Buddsoddwyr mewn Gofalwyr yn gynllun a ddefnyddir yn helaeth gan ddarparwyr iechyd a gofal ar draws ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae ychydig o ysgolion yn yr ardal yn defnyddio'r cynllun i werthuso a gwella eu darpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc, gan gynnwys Ysgol Y Strade yn Llanelli. Mae cynlluniau cadarn ar waith i gynyddu nifer yr ysgolion sy'n cwblhau'r wobr dros y tair blynedd nesaf. Mae'r cynllun yn archwilio chwe thema ac mae ar gael ar dair lefel. Mae mwy o wybodaeth ar gael o: http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/862/page/66977

**Astudiaeth achos 3: Ysgol y Strade – Gwobr Buddsoddwyr mewn Gofalwyr**

**Gwybodaeth am yr ysgol**

Mae Ysgol y Strade yn ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion 11-19 oed yn Llanelli, Sir Gaerfyrddin. Ar hyn o bryd, mae 1,052 o ddisgyblion ar y gofrestr. Mae tua 7.8% o ddisgyblion yn gymwys am brydau ysgol am ddim, sydd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r ysgol yn nodi bod gan ryw 8.9% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, sydd hefyd islaw'r cyfartaledd cenedlaethol.

**Cyd-destun a chefndir yr arfer**

Mae'r ysgol wedi meithrin partneriaethau cryf gydag asiantaethau allanol i ddatblygu system fugeiliol sy'n cynorthwyo disgyblion o bob cefndir, gan gynnwys y rheiny sy'n gofalu am bobl eraill. Mae'r ysgol wedi datblygu ethos cymunedol cryf sy'n darparu cymorth effeithiol ar gyfer anghenion cymdeithasol ac emosiynol disgyblion i sicrhau eu bod yn cael y cyfle i gyflawni eu potensial.

**Disgrifiad o'r gweithgaredd / strategaeth**

Mae'r ysgol wedi datblygu gweithdrefnau cadarn i nodi a chynorthwyo gofalwyr ifanc. Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o ystod eang o wybodaeth yn gysylltiedig â lles disgyblion i nodi disgyblion sy'n wynebu anawsterau y tu allan i'r ysgol. Mae'r tîm bugeiliol yn defnyddio canlyniadau'r olrhain hwn i drefnu fforymau sy'n canolbwyntio ar ddisgyblion, lle bydd staff allweddol yn cyfarfod i drafod beth sy'n gweithio i ddisgybl, a beth y gellir ei wneud i'w gynorthwyo ymhellach. Wedyn, mae'r arweinydd bugeiliol yn defnyddio'r wybodaeth hon i gynnal cyfarfodydd ar arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gyda theuluoedd.

Dyfarnwyd Gwobr Efydd Buddsoddwyr mewn Gofalwyr i'r ysgol am ei gwaith mewn nodi a chynorthwyo gofalwyr ifanc. Mae'r ysgol yn codi ymwybyddiaeth am rôl ac anghenion gofalwyr ifanc yn dda trwy arddangosfa amlwg ar hysbysfwrdd, mewn gwersi addysg bersonol a chymdeithasol a thrwy wasanaethau. Mae hyn wedi helpu staff a disgyblion i nodi gofalwyr ifanc a'u cyfeirio at gymorth a chyngor.

Mae'r ysgol yn cysylltu'n dda ag asiantaethau allanol sy'n darparu gweithdai disgyblion a chyfle i ofalwyr ifanc gyfarfod a chael cyngor a chymorth amser cinio.

**Effaith ar ddarpariaeth a safonau**

Mae'r ysgol wedi sefydlu ethos sy'n canolbwyntio'n dda ar gynhwysiant a chymorth i bawb. Bodlonir anghenion cymdeithasol ac emosiynol penodol disgyblion, gan gynnwys gofalwyr ifanc, trwy raglen ymyrraeth bersonoledig, sy'n cynnwys addasiadau i'r amserlen a chymorth un i un arbenigol. Mae'r holl asiantaethau partner yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol er budd y disgyblion. Mae gofalwyr ifanc yn teimlo bod yr ysgol yn cydnabod eu rôl ofalu ac yn addasu eu darpariaeth i gefnogi eu hanghenion lles.

## Darpariaeth ehangach i ddiwallu anghenion gofalwyr ifanc

26 Mae gan y darparwyr mwyaf effeithiol raglenni addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) pwrpasol a chynhwysfawr sy'n canolbwyntio'n benodol ar godi ymwybyddiaeth am rôl ac anghenion amrywiol gofalwyr ifanc. Mae gwasanaethau, arddangosfeydd gwybodaeth ac ymweliadau gan siaradwyr allanol o asiantaethau arbenigol fel yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr Ifanc, yn cefnogi'r sesiynau hyn yn dda. Er enghraifft, mae Ysgol Bryn Elian yng Nghonwy yn cynnwys rôl gofalwyr ifanc fel rhan o ddarpariaeth ABCh Blwyddyn 9. Mae gwasanaethau â ffocws, cyflwyniad digidol i'w ddefnyddio mewn sesiynau grwpiau tiwtor, a dathliad ysgol gyfan blynyddol o ddiwrnod gofalwyr ifanc, yn sicrhau bod yr ysgol yn cynnal ymwybyddiaeth disgyblion o ofalwyr ifanc a'u hanghenion trwy gydol y flwyddyn. Mae hyn wedi helpu disgyblion i nodi eu hunain a'u cyfoedion fel rhai sy'n ofalwyr ifanc.

27 Yn gyffredinol, mae ysgolion uwchradd, colegau ac UCDau sydd â dull o gynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn creu cynlluniau effeithiol i gynorthwyo dysgwyr. Er enghraifft, mae proffiliau un dudalen ar gyfer gofalwyr ifanc yn Ysgol Bryn Elian, Ysgol Uwchradd Y Rhyl ac Ysgol Gyfun Treorci yn amlinellu'n glir beth sy'n bwysig i'r person ifanc, beth yw anghenion y person ifanc, ei (g)obeithion ar gyfer y dyfodol a sut gall yr ysgol ei gynorthwyo/chynorthwyo. Adroddodd ychydig o ysgolion uwchradd, colegau ac UCDau fod y dull hwn wedi nodi disgyblion neu ddysgwyr â rôl ofalu nad oeddent yn ymwybodol ohonynt o'r blaen. Yng Ngholeg Gwent, mae pob un o'r disgyblion newydd yn cwblhau proffil un dudalen gyda'u tiwtoriaid personol. Mae hyn yn darparu ffocws defnyddiol ar gyfer trafodaethau am unrhyw rôl ofalu sydd gan ddysgwr ac yn nodi sut gall y coleg eu cynorthwyo i oresgyn unrhyw rwystrau rhag dysgu. Yn UCD Sir Fynwy, mae staff yn defnyddio deilliannau adolygiadau misol i ddiweddaru Cynllun Datblygu Unigol pob disgybl. Mae'r cynlluniau hyn yn ystyried anghenion gofalwyr ifanc yn dda.

28 Mae gan lawer o ysgolion uwchradd, colegau ac UCDau yr ymwelwyd â nhw strategaeth dra ystyriol i helpu gofalwyr ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cyfoethogi'r cwricwlwm. Er enghraifft, maent yn sicrhau bod gan ofalwyr ifanc le i gwblhau gwaith cartref, ac yn darparu ystod eang o weithgareddau diwylliannol a chwaraeon yn ystod amser cinio. Mae gofalwyr ifanc na allant fynychu clybiau ar ôl yr ysgol o ganlyniad i'w rôl ofalu yn gwneud defnydd da o'r cyfleoedd hyn i gymdeithasu â'u cyfoedion yn yr ysgol. Mae gofalwyr ifanc yn Ysgol Gyfun Treorci yn elwa'n fawr ar glwb gwaith cartref ar ôl yr ysgol 'iwork' ac ar y Rhaglen Ymgysylltu â Phobl Ifanc sy'n cynnig ystod eang o weithgareddau bob prynhawn dydd Gwener. Yn Ysgol Rhydywaun ac Ysgol Llanhari, darperir cludiant ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol un noson bob wythnos. Mae hyn yn helpu disgyblion a fyddai fel arall yn ei chael yn anodd teithio gartref i allu cymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl yr ysgol.

29 Mae ychydig o ysgolion uwchradd yr ymwelwyd â nhw yn darparu cymorth sensitif i ofalwyr ifanc ddefnyddio ffônau fel y gallant gysylltu â'u cartref yn ystod y diwrnod ysgol. Mae hyn yn helpu gofalwyr ifanc i ymdrin ag unrhyw ofidiau sydd ganddynt ynghylch iechyd a lles y rheiny y maent yn gofalu amdanynt pan fyddan nhw yn yr ysgol. Mae ychydig o ysgolion hefyd yn trefnu bod eitemau o wisg ysgol, llyfrau ac offer ysgrifennu ar gael i ddysgwyr sy'n agored i niwed. Mae hyn yn darparu cymorth gwerthfawr, cynnil ar gyfer disgyblion a fyddai fel arall yn poeni ynglŷn â pheidio â chael y cit neu'r offer cywir. Mae hyn yn cynnwys gofalwyr ifanc nad oes ganddynt amser efallai, o ganlyniad i ofynion eu rôl ofalu, i gael yr offer cywir. Mae ychydig o ysgolion yn sicrhau hefyd fod gofalwyr ifanc yn mynychu clybiau brecwast ac yn darparu prydau bwyd amser cinio pan fydd gofalwyr ifanc yn cyrraedd yr ysgol heb ginio pecyn. Mae gofalwyr ifanc yn gwerthfawrogi'r cymorth sensitif hwn.

30 Mewn ychydig iawn o achosion, a phan fo'n briodol, mae arweinwyr yn defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion (GDD) a chyllid grant Ewropeaidd i ddarparu cymorth ariannol i ofalwyr ifanc gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfoethogi. Yn UCD Portffolio Darpariaeth Amgen y Bont, mae arweinwyr yn defnyddio cyllid grant i ddarparu cymorth ar gyfer gofalwyr ifanc yn ystod gwyliau ysgol, a chefnogi ymglymiad gofalwyr ifanc mewn ystod eang o ymweliadau oddi ar y safle.

31 Mae lleiafrif o ysgolion uwchradd, colegau ac UCDau y gwnaed arolwg ohonynt wedi nodi lleoedd diogel lle gall gofalwyr ifanc fynd yn ystod y diwrnod ysgol i fanteisio ar

lefel uwch o gymorth. Er enghraifft, yn Ysgol Cwm Rhymni, mae gofalwyr ifanc yn elwa ar allu mynychu canolfan les newydd lle mae staff ar gael trwy gydol y dydd i roi cymorth a chyngor. Yn Ysgol Dyffryn Ogwen, Ysgol Rhydywaun ac Ysgol Llanhari, mae gan anogwyr dysgu ganolfannau lle gall gofalwyr ifanc elwa ar gymorth unigol. Yn Ysgol Y Strade, mae cymorth tebyg ar gael yng Nghanolfan Hafan yr ysgol.

## Olrhain a monitro deilliannau ar gyfer gofalwyr ifanc

32 Roedd llawer o ysgolion uwchradd, colegau ac UCDau y gwnaed arolwg ohonynt, yn olrhain a monitro agweddau pwysig ar les gofalwyr ifanc, fel presenoldeb a phrydlondeb. Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda ac yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau cymorth i roi systemau ar waith i gynorthwyo gofalwyr ifanc i wella eu hymgysylltiad â dysgu. Mewn ychydig o achosion, dywedodd gofalwyr ifanc eu bod wedi cael eu cosbi gan ysgolion am bresenoldeb gwael a chyrraedd yn hwyr, sy'n gysylltiedig â'u rolau gofalu. Mae ysgolion uwchradd, colegau ac UCDau sydd fwyaf effeithiol o ran diwallu anghenion gofalwyr ifanc yn olrhain eu hanghenion lles ac yn addasu eu darpariaeth yn ofalus i ddiwallu anghenion unigol pob gofalwr ifanc.

33 Lleiafrif yn unig o ysgolion uwchradd, colegau ac UCDau sy'n defnyddio system rheoli gwybodaeth i olrhain ac adrodd ar y cynnydd academaidd a wna gofalwyr ifanc o gymharu â'u cyfoedion. Er enghraifft, mae arweinwyr yn Ysgol Llanilltud Fawr, Ysgol Cwm Rhymni, Ysgol Llanhari ac Ysgol Uwchradd Ioan Fedyddiwr yn defnyddio system reoli i olrhain y cynnydd a wna gofalwyr ifanc mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i fonitro cynnydd gofalwyr ifanc dros gyfnod o'u mannau cychwyn ac mewn perthynas â'u cyfoedion.

## Gwaith partneriaeth effeithiol

34 Mae llawer o ysgolion uwchradd a cholegau yr ymwelwyd â nhw yn elwa ar gyngor a chymorth gweithwyr o brosiectau gofalwyr ifanc. Fodd bynnag, prin oedd y dystiolaeth fod y prosiectau hyn yn ymgysylltu ag UCDau. Pan mae darparwyr yn ffurfio partneriaethau cryf gyda'u prosiectau gofalwyr ifanc lleol, mae'r prosiectau hyn yn darparu lefel uchel o gymorth buddiol ar gyfer yr ysgol a gofalwyr ifanc unigol. Yn yr enghreifftiau mwyaf effeithiol, mae ysgolion yn integreiddio'r gweithwyr hyn yn y tîm staff ehangach. Er enghraifft, yn Ysgol John Frost yng Nghasnewydd, mae gweithwyr o'r prosiect gofalwyr lleol yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd yn ystod egwyliau cinio gyda grŵp o ofalwyr ifanc. Maent yn gweithio'n agos gyda'r tîm lles staff a theuluoedd gofalwyr ifanc i sicrhau bod darpariaeth yr ysgol yn diwallu anghenion pob gofalwr yn dda. Yn Ysgol Uwchradd Y Rhyl, mae gweithiwr o'r grŵp cymorth lleol ar gyfer gofalwyr ifanc yn mynychu cyfarfodydd tîm amlasiantaethol misol, yn cyflwyno hyfforddiant staff, yn arwain gwasanaethau ac yn ymweld ag ysgolion bwydo i gefnogi cyfnod pontio gofalwyr ifanc yn yr ysgol. Ar gampws Coleg

Gwent yng Nghasnewydd, mae gan y prosiect gofalwyr ifanc ganolfan galw i mewn lle gall gofalwyr ifanc alw heibio am gyngor a chymorth.  Mae arweinwyr y coleg yn gweithio gyda'r prosiect gofalwyr i werthuso effaith y gwasanaeth hwn.

35 Cymerodd llawer o ysgolion ran yn y cynlluniau gwobrwyo amrywiol ac mae'r rhaglen Gofalwyr Ifanc mewn Ysgolion wedi datblygu arfer gref o ran rhannu gwybodaeth berthnasol i sicrhau bod ystod eang o weithwyr proffesiynol yn deall anghenion gofalwyr ifanc.  Er enghraifft, yn Ysgol Uwchradd Gatholig Joseff Sant yng Nghasnewydd, mae tîm amlasiantaethol yn cyfarfod bob wythnos i drafod anghenion disgyblion sy'n agored i niwed.  Yn y cyfarfodydd hyn, mae cynrychiolwyr o'r ysgol, y gwasanaeth lles addysg, yr awdurdod iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a seicoleg addysg yn trafod anghenion ac asesiadau parhaus gofalwyr ifanc unigol, fel y bo'n briodol.

36 Mae bron pob ysgol sy'n dilyn un o'r cynlluniau gwobrwyo neu'r rhaglen Gofalwyr Ifanc mewn Ysgolion yn gwneud gwelliannau sylweddol mewn trefniadau i wrando ar ofalwyr ifanc.  Er enghraifft, mewn ychydig o ysgolion, mae anogwyr dysgu yn darparu amser dynodedig bob wythnos i gyfarfod â gofalwyr ifanc unigol i drafod agweddau ar eu lles, ac unrhyw faterion y mae'r gofalwr ifanc yn eu codi.  Mae ychydig o ysgolion hefyd yn trefnu cyfarfodydd rheolaidd â gofalwyr ifanc lle gallant rannu eu profiadau a chodi pryderon.  Mewn ychydig iawn o achosion, mae ysgolion yn cyd-gynhyrchu deunyddiau hyfforddi staff a chynnwys gwersi gyda gofalwyr ifanc i sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir yn gywir ac yn cynrychioli eu safbwyntiau a'u profiadau yn effeithiol.  Yng Ngholeg y Cymoedd, sefydlwyd grwpiau cymorth wedi'u harwain gan ddysgwyr, lle mae dysgwyr yn cyfarfod yn gymdeithasol y tu mewn i'r coleg a'r tu allan i gynorthwyo ei gilydd.

37 Agwedd hynod gref ar y ddarpariaeth yn y rhan fwyaf o UCDau yw'r gwaith partneriaeth cryf rhwng y staff a theuluoedd y disgyblion.  Mae nifer gymharol fach y disgyblion yn yr unedau hyn a'r perthnasoedd gwaith agos sy'n bodoli rhwng staff a disgyblion yn helpu staff i wybod anghenion pob disgybl yn dda a chyfathrebu'n effeithiol â rhieni.  Er enghraifft, yn UCD Sir Fynwy, mae'r wybodaeth asesu gynhwysfawr ar gyfer pob disgybl wrth gychwyn, adolygiadau rheolaidd o leoliad a chyswllt agos rhwng rhieni a staff, yn aml bob dydd, yn rhoi gwybodaeth gadarn i staff am anghenion disgyblion.  Mae'r cyfathrebu effeithiol rhwng yr UCD a rhieni yn galluogi'r UCD i ddarparu lefel uchel o gymorth ar gyfer gofalwyr ifanc unigol, gan gynnwys cymorth ar gyfer cwblhau aseiniadau gwaith cwrs, mynychu apwyntiadau ysbyty a chyfeirio gofalwyr ifanc at gymorth priodol.  Yn UCD Portffolio Darpariaeth Amgen y Bont ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae arweinwyr wedi gwneud addasiadau pwysig i'w darpariaeth i ddiwallu anghenion rhieni, gan gynnwys rhai gofalwyr ifanc.  Maent wedi dechrau cynnal diwrnodau tiwtor yn lle nosweithiau ymgynghori â rhieni lle gall rhieni ddod i mewn ar unrhyw adeg yn ystod y dydd i adolygu cynnydd eu plentyn.  Maent wedi gwella eu gwefan hefyd i roi mwy o fanylion i rieni na allant ymweld â'r ysgol, ac sydd mewn perygl o golli cysylltiad â'r UCD.  Mae'r ddwy fenter hyn yn cefnogi anghenion rhieni a gofalwyr ifanc yn dda.

## Hyfforddiant staff

38 O'r ysgolion uwchradd, y colegau a'r UCDau y gwnaed arolwg ohonynt, ychydig iawn ohonynt yn unig sydd wedi rhoi hyfforddiant i bob aelod o staff ar anghenion gofalwyr ifanc. Mae lleiafrif ohonynt wedi hyfforddi mwyafrif eu staff ac mae ychydig ohonynt wedi hyfforddi dros hanner eu staff. Mae lleiafrif ohonynt wedi hyfforddi ychydig o aelodau o'u staff yn unig.

39 Yn gyffredinol, mae'r ysgolion, y colegau a'r UCDau sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau gwobrwyo a'r rhaglen Gofalwyr Ifanc mewn Ysgolion wedi rhoi systemau cryf ar waith i hyfforddi staff am anghenion gofalwyr ifanc. Mae hyn oherwydd bod hyfforddiant staff yn rhan gyffredin ym mhob un o'r cynlluniau. Er enghraifft, fe wnaeth staff allweddol yn Ysgol Y Strade elwa ar ddefnyddio adnodd hyfforddiant ar-lein defnyddiol sydd ar gael i ysgolion yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn dilyn y Wobr Buddsoddwyr mewn Gofal. Mae ysgolion sy'n dilyn Gwobr Ysgolion i Ofalwyr Ifanc RhCT hefyd yn elwa ar gymorth pecyn hyfforddiant ar-lein. Mae darparwyr fel Coleg y Cymoedd wedi defnyddio'r adnodd hwn i hyfforddi staff allweddol ynglŷn ag anghenion gofalwyr ifanc.

40 Mae mentrau Llywodraeth Cymru i hyrwyddo lles pobl ifanc, fel yr hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth am effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, yn dechrau cael effaith mewn ysgolion. Mae ysgolion sydd wedi elwa ar yr hyfforddiant wedi ehangu eu ffocws ar ddiwallu anghenion dysgwyr sy'n agored i niwed i gynnwys gofalwyr ifanc ochr yn ochr â phlant sy'n derbyn gofal a'r rheiny sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Yn gyffredinol, mae staff yn yr ysgolion hyn yn ymwybodol o effaith bosibl rôl ofalu ar gyfleoedd mewn bywyd i ofalwyr ifanc. Roedd ychydig o ysgolion a cholegau yr ymwelwyd â nhw yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o'r medrau estynedig a ddatblygwyd gan lawer o ofalwyr ifanc o ganlyniad i'w rôl ofalu, a'r effeithiau negyddol posibl. Gwnaeth y darparwyr hyn yn siŵr fod gofalwyr ifanc yn defnyddio eu medrau yng nghymuned yr ysgol, fel ymgymryd â rolau arwain mewn cynghorau ysgol neu weithredu fel mentoriaid ar gyfer gofalwyr ifanc eraill.

41 Yn awdurdod lleol Ceredigion, mae grŵp o ofalwyr ifanc a staff o Ysgol Penglais wedi cwblhau rhaglen hyfforddiant ymyrraeth arloesol gyda staff yr awdurdod lleol. Mae'r hyfforddiant yn rhoi i staff a disgyblion y wybodaeth a'r medrau sydd eu hangen arnynt i gefnogi anghenion lles gofalwyr ifanc. Mae'r cwrs yn helpu mynd i'r afael ag anghenion y rheiny sydd wedi cael profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, gan gynnwys cael rôl ofalu. Nod y cwrs yw rhoi pecyn cymorth i ofalwyr a'r rheiny sy'n eu cynorthwyo i wella eu gwydnwch.

# Sail y dystiolaeth

Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn defnyddio tystiolaeth o:

- arolwg o sampl o ysgolion uwchradd, colegau ac UCDau
- arolwg o brosiectau gofalwyr ifanc ledled Cymru
- ymweliadau ag ysgolion, colegau ac UCDau
- cyfweliadau â chynrychiolwyr asiantaethau arbenigol
- cyfweliadau â gofalwyr ifanc mewn ysgolion

Darparwyd gwybodaeth am ddarpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc gan 12 o brosiectau gofalwyr ifanc, ac wyth ysgol uwchradd arall, chwech o golegau, a thair UCD trwy arolygon ar-lein. Ystyriodd y sampl leoliad daearyddol, cefndir economaidd gymdeithasol, maint yr ysgol a chyd-destunau ieithyddol.

Roedd yr 13 ysgol, y ddau goleg a'r un UCD a ddewiswyd ar gyfer ymweliadau wedi cael eu nodi'n rhai sydd ag arfer gref mewn darpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc trwy arolwg ar-lein o brosiectau gofalwyr ifanc a chyfweliadau â chynrychiolwyr o asiantaethau arbenigol. Yn yr ymweliadau hyn, bu arolygwyr:

- yn adolygu cynlluniau a dogfennau i gefnogi anghenion gofalwyr ifanc
- yn cyfarfod â grwpiau cynrychioliadol o ofalwyr ifanc
- yn cynnal trafodaethau ag arweinwyr sy'n gyfrifol am ofalwyr ifanc

Casglwyd gwybodaeth hefyd trwy gyfweliadau, ymweliadau a chyswllt dros y ffôn ag asiantaethau arbenigol y nodwyd bod ganddynt bartneriaethau strategol ag ysgolion ynglŷn â'r ddarpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru
- Tîm Cymorth i Ofalwyr Ifanc Rhondda Cynon Taf
- Ymddiriedolaeth Gofalwyr De Ddwyrain Cymru
- Gofalwyr Ifanc Sir Benfro
- Bwrdd Iechyd Unedol Hywel Dda

Dyma'r ysgolion, y colegau a'r UCDau yr ymwelwyd â nhw fel rhan o'r arolwg:

- Ysgol Gyfun Rhydywaun, Rhondda Cynon Taf
- Ysgol Llanilltud Fawr, Bro Morgannwg
- Ysgol Llanhari, Rhondda Cynon Taf
- Ysgol Uwchradd Joseff Sant, Casnewydd
- Ysgol John Frost, Casnewydd
- Ysgol Dyffryn Ogwen, Gwynedd
- Ysgol Gyfun Treorci, Rhondda Cynon Taf
- Ysgol Uwchradd Y Rhyl, Sir y Fflint
- Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, Caerffili
- Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Ioan Fedyddiwr, Rhondda Cynon Taf

- Ysgol Gyfun Aberpennar, Rhondda Cynon Taf
- Ysgol Bryn Elian, Conwy
- Ysgol Y Strade, Sir Gaerfyrddin
- UCD Sir Fynwy
- Coleg y Cymoedd
- Coleg Gwent

Darparwyd tystiolaeth gan UCD Portffolio Darpariaeth Amgen y Bont dros y ffôn.

# Atodiad 1:  Rhestr wirio

**Gallai fod yn ddefnyddiol i ysgolion, colegau ac UCDau ofyn y cwestiynau canlynol iddyn nhw eu hunain wrth werthuso eu darpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc:**

- Pa mor dda ydym ni'n nodi gofalwyr ifanc, er enghraifft trwy gasglu gwybodaeth fel rhan o weithdrefnau derbyn, trwy holiaduron neu sgrinio wrth iddynt ddechrau, neu ddefnyddio sesiynau codi ymwybyddiaeth? (cyfeiriwch at baragraffau 12–16)
- A ydym ni wedi nodi aelod o staff arweiniol addas i ddarparu man cyswllt clir a chymorth effeithiol ar gyfer gofalwyr ifanc a theuluoedd? (cyfeiriwch at baragraffau 17-21)
- Pa mor dda y mae ein darpariaeth ar gyfer gofalwyr ifanc yn gweddu i'n blaenoriaethau strategol?  Er enghraifft, a yw'n ymddangos yn y cynllun datblygu? (cyfeiriwch at baragraff 22)
- Pa mor effeithiol ydym ni'n ymgysylltu â'r bwrdd iechyd lleol, yr awdurdod lleol a sefydliadau'r trydydd sector ac yn defnyddio strategaethau lleol a chynlluniau gweithredu i wella ein darpariaeth? (cyfeiriwch at baragraffau 23-24 ac astudiaeth achos 1)
- Pa mor dda ydym ni'n defnyddio'r adnoddau a'r pecynnau cymorth sydd ar gael gan asiantaethau arbenigol i werthuso ein harfer a helpu diwallu anghenion gofalwyr ifanc (cyfeiriwch at baragraff 25 ac astudiaeth achos 2)
- Pa mor effeithiol yw ein cwricwlwm, ein rhaglen ABCh a'n darpariaeth ehangach o ran cynorthwyo gofalwyr ifanc?  Er enghraifft, a ydym ni'n gwneud digon i alluogi gofalwyr ifanc i fynychu gweithgareddau allgyrsiol, manteisio ar yr offer cywir a chwblhau gwaith cartref mewn amgylchedd priodol? (cyfeiriwch at baragraffau 26-31)
- Pa mor dda ydym ni'n olrhain ac yn dadansoddi lles, cynnydd ac anghenion unigol gofalwyr ifanc er mwyn i ni allu rhoi systemau addas ar waith i gefnogi eu hymgysylltiad â dysgu a gwella eu deilliannau addysgol? (cyfeiriwch at baragraffau 32-33)
- Pa mor effeithiol ydym ni'n gweithio mewn partneriaeth ag eraill, gan gynnwys prosiectau gofalwyr ifanc, grwpiau cymorth, timau amlasiantaethol, cynlluniau gwobrwyo a theuluoedd dysgwyr i roi i ofalwyr ifanc y cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i gael y cyfle gorau i lwyddo? (cyfeiriwch at baragraffau 34-37)
- Pa mor dda ydym ni'n hyfforddi ein staff i ddeall anghenion gofalwyr ifanc a datblygu'r wybodaeth a'r medrau sydd eu hangen arnynt i hyrwyddo lles a chyflawniad yr holl ddisgyblion, gan gynnwys gofalwyr ifanc? (cyfeiriwch at baragraffau 38-41)

# Geirfa

**Addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh)** — Rhaglenni i gynorthwyo dysgwyr i fod yn bersonol ac yn gymdeithasol effeithiol trwy ddarparu profiadau dysgu lle gallant ddatblygu a chymhwyso medrau, archwilio agweddau a gwerthoedd personol, a chaffael gwybodaeth a dealltwriaeth briodol

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)** — Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn gytuniad hawliau dynol rhyngwladol sy'n sicrhau set gynhwysfawr o hawliau ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc (17 oed ac yn iau). Llofnododd y DU y confensiwn ar 19 Ebrill 1990 a'i gadarnhau ar 16 Rhagfyr 1991, a daeth i rym ar 15 Ionawr 1992.

**Gofalwr ifanc** — Unigolyn o dan 18 oed sy'n darparu, neu'n bwriadu darparu, gofal ar gyfer oedolyn neu blentyn anabl

**Uned cyfeirio disgyblion** — Math o ysgol a sefydlwyd gan awdurdod lleol, ac sy'n cael ei chynnal ganddo, i ddarparu addysg addas ar gyfer plant a phobl ifanc nad ydynt efallai, oherwydd salwch, gwaharddiad neu fel arall, yn derbyn addysg o'r fath (adran 19 Deddf Addysg 1996)

## Niferoedd – meintiau a chyfrannau

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

# Cyfeiriadau

Comisiynydd Plant Cymru (2009) *Bywyd Llawn Gofal: Gofalwyr Ifanc yng Nghymru 2009.* Abertawe: Comisiynydd Plant Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2016/04/young-carers-cym.pdf [Defnyddiwyd 28 Ionawr 2019]

Cymdeithas y Plant (2013) *Hidden from View*. Llundain: Cymdeithas y Plant. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.childrenssociety.org.uk/sites/default/files/tcs/report_hidden-from-view_young-carers_final.pdf [Defnyddiwyd 23 Ionawr 2019]

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2010) *Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010.* Llundain: Y Llyfrfa. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.legislation.gov.uk/mwa/2010/5/enacted. [Defnyddiwyd 28 Ionawr 2019]

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2014) *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.* Llundain: Y Llyfrfa. [Ar-lein]. Ar gael o: http://www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_en.pdf [Defnyddiwyd 28 Ionawr 2019]

Llywodraeth Cymru (2013) *Y Strategaeth ar gyfer Gofalwyr yng Nghymru 2013.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/docs/dhss/publications/130613strategycy.pdf [Defnyddiwyd 28 Ionawr 2019]

Llywodraeth Cymru (2017) *Pecyn Cymorth Gofalwyr Ifanc.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/topics/health/socialcare/carers/young-carers-toolkit/?lang=cy [Defnyddiwyd 15 Mai 2018]

Llywodraeth Cymru (2018) *Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr – Cynllun Blynyddol 2018/2019.* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Ar gael o: https://gov.wales/topics/health/socialcare/carers/?lang=cy [Defnyddiwyd 21 Ionawr 2019]

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2000) *Cynllun Gweithredu Strategaeth ar gyfer Gofalwyr yng Nghymru.* Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004) *Gofalu am Ofalwyr Ifanc – adnodd hyfforddiant ar gyfer ysgolion*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) *Y Strategaeth ar gyfer Gofalwyr yng Nghymru – Cynllun Gweithredu 2007*. Cardiff: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru (2018) *Grŵp Datblygu Gofalwyr Gorllewin Cymru: Cynllun Cyflawni Gofalwyr*. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.wwcp.org.uk/wp/?mdocs-file=2186 [Defnyddiwyd 24 Ionawr 2019]

Prydain Fawr (1996) *Deddf Addysg 1996*. Llundain: Y Llyfrfa. [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1996/56/contents [Defnyddiwyd 1 Chwefror 2019]

Sempik, J a Becker, S. (2014) *Young Adult Carers at College and University.* Llundain: Ymddiriedolaeth Gofalwyr. [Ar-lein]. Ar gael o: https://carers.org/sites/default/files/young_adult_carers_at_college_and_university.pdf [Defnyddiwyd 20 Mawrth 2019].

Sempik, J. a Becker, S. (2013) *Young Adult Carers at School: Experiences and Perceptions of Caring and Education*. Llundain: Ymddiriedolaeth Gofalwyr. [Ar-lein]. Ar gael o: https://carers.org/sites/default/files/young_adult_carers_at_school-8_11_13-1_proof_4_final_1.pdf [Defnyddiwyd 20 Mawrth 2019]

UNICEF UK (1990) *Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.* Llundain: UNICEF. [Ar-lein]. Ar gael o: https://downloads.unicef.org.uk/wp-content/uploads/2010/05/UNCRC_PRESS200910web.pdf?_ga=2.204033616.1521843694.1493365823-2111545197.1489681381 [Defnyddiwyd 5 Mai 2016]

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2011) *Provision of unpaid care by age.* [Ar-lein]. Ar gael o: https://www.nomisweb.co.uk/census/2011/LC3304EW/view/2092957700?rows=c_age&cols=c_carer [Defnyddiwyd 2 Chwefror 2019]

Yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr (2017) *Pecyn Cymorth Gofalwyr Ifanc yng Nghymru.* Caerdydd: Ymddiriedolaeth Gofalwyr. [Ar-lein]. Ar gael o: https://professionals.carers.org/Young-Carers-in-School-Wales [Defnyddiwyd 29 Ionawr 2019]

Yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr a'r Sefydliad Dysgu a Gwaith (2017) *Cefnogi Myfyrwyr sydd â Chyfrifoldebau Gofalu: Adnodd ar gyfer Darparwyr Addysg Bellach i Helpu Gofalwyr sy'n Oedolion Ifanc i Lwyddo mewn Addysg Bellach yng Nghymru*. Caerdydd: Yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr a'r Sefydliad Dysgu a Gwaith. [Ar-lein]. Ar gael o: https://professionals.carers.org/Supporting-further-education-student-carers-in-Wales [Defnyddiwyd 29 Ionawr 2019]